Y CYLCH CYLLID

Mae aelodau'r Cylch Cyllid yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i aelodau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol i sicrhau bod y cyllid a dderbynnir wedi'i reoli'n ofalus.

Prif Nod y Cylch:

Gweithredu ar ran yr Ymddiriedolwyr, y Diaconiaid a holl Aelodau'r Eglwys.

Amcanion y Cylch:

1. Sicrhau bod cyfraniadau hael yr aelodau a'r incwm a dderbynnir o ffynonellau eraill yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n ofalus.

2. Sicrhau, ar ran yr ymddiriedolwyr, fod asedau'r Eglwys yn cael eu cynnal yn briodol a bod adnoddau cyllidol digonol ar gael ar gyfer hynny.

3. Sicrhau ein bod yn cadw digon o adnoddau ariannol wrth gefn i ddiogelu a datblygu dyfodol yr Eglwys.

4. Paratoi a chynnal rhaglen waith a chynllun ariannol sy'n cwmpasu holl ofynion y Gweinidog, yr aelodau a'r cylchoedd.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio,

- cyflwynwyd adroddiadau cyson i Gyfarfodydd y Diaconiaid yn amlinellu'r sefyllfa ariannol

- cynhaliwyd cyfarfodydd cyson a thrafodwyd y cyfrifon ariannol, tuedd yr incwm a'r gwariant ym mhob un cyfarfod

- derbyniwyd ac ystyriwyd adroddiad a chynlluniau gwario'r Cylch Adeiladau am y tair blynedd nesaf er mwyn blaengynllunio

- trafodwyd a lluniwyd llythyr at yr holl aelodau ar gyfer ei ddosbarthu ym Mis Hydref 2011

- cytunwyd ar ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Diweddarwyd Ionawr 2012